# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 14 Chwefror 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 15 Chwefror 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 21 Chwefror 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd

**PWNC** - Addasu y Cynllun Dirprwyo Cyfansoddiad Adran 13(3) - Pennaeth Amgylchedd - Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ("Y Deddf")

**PENDERFYNIAD –** Addasu y Cynllun Dirprwyo Cyfansoddiad Adran 13(3) - i ddirprwyo gweithredu darpariaethau - Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 i'r Pennaeth Amgylchedd.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**
Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Arweinydd |
| **Teitl** | **Addasu y Cynllun Dirprwyo Cyfansoddiad Adran 13(3) - Pennaeth Amgylchedd - Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ("Y Deddf")** |
| **Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :** | Iwan G D Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:** | 14 Chwefror 2024 |
| **Llofnod yr Aelod/au Cabinet :** | Derbyn yr argymhelliad. |

**Penderfyniad a Geisir**

**Addasu y Cynllun Dirprwyo Cyfansoddiad Adran 13(3) - i ddirprwyo gweithredu darpariaethau - Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 i'r Pennaeth Amgylchedd.**

**Cefndir**

1. Mae Adran 5 o'r Cyfansoddiad yn darparu y gall yr Arweinydd addasu y Cynllun Dirprwyo sydd yn Adan 13 o'r Cyfansoddiad yn ddarostyngedig i ddilyn proses rybudd.

> **"5.9.3 Cynllun Dirprwyo a Swyddogaethau Gweithredol y Cyngor**
>
> (a) Caiff yr Arweinydd ddiwygio'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol ar unrhyw adeg. Wrth wneud hynny, bydd yr Arweinydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau

Democrataidd a'r unigolyn, y corff neu'r pwyllgor dan sylw. Mae'n rhaid i'r rhybudd amlinellu maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a pha un a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar unrhyw unigolyn, corff neu bwyllgor. Bydd y Swyddog Monitro yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor yn amlinellu'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.

(b) Pan fydd yr Arweinydd yn ceisio tynnu dirprwyaeth yn ôl oddi ar un o bwyllgorau'r Cabinet, ystyrir bod rhybudd wedi'i roi i'r pwyllgor hwnnw pan fydd wedi'i roi i'w gadeirydd."

2. Mae Deddf yn ei gwneud yn drosedd cyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys yn rhad ac am ddim) rhai cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr yng Nghymru oni bai bod eithriad . Diffinir "plastig defnydd untro" yn y Ddeddf fel cynnyrch ble mae ei holl brif adrannau neu un neu fwy o'r prif adrannau neu leinin wedi ei wneud o blastig boed hynny yn llwyr neu yn rhannol ac "nad yw wedi ei ddylunio neu ei weithgynhyrchu i'w ddefnyddio at y diben y'i dyluniwyd neu y'i gweithgynhyrchwyr ar ei gyfer fwy nag unwaith (neu ar fwy nag un achlysur) cyn ei waredu"

3. Gosodir y cyfrifoldeb am orfodi y Deddf yn nwylo y Cyngor ac mae hyn yn cynnwys pŵer o fewn gofynion y ddeddf i wneud pryniannau prawf, cael mynediad i eiddo ac archwilio nwyddau. Mae angen dirprwyo yr hawliau yma i swyddogion er gallu gweithredu y ddeddfwriaeth ac argymhellir mai Adran Amgylchedd sydd a'r arbenigedd ar gyfer cyflawni hyn.

4. Argymhellir felly addasu Adran 13 Rhan 3 11.3.2, Pennaeth Amgylchedd o'r Cyfansoddiad drwy ychwanegu y Ddeddf at y rhestr o Ddeddfau a gyfeirir atynt yn 11.3.2:

   "Gweithredu pwerau'r Cyngor dan y deddfau a restrir yn yr Atodiad i'r cynllun hwn (ynghyd ag unrhyw ddeddfau eraill yn ymwneud a Gwarchod y Cyhoedd a ddaw yn gyfrifoldeb i'r Cyngor ac a gaiff eu hychwanegu at y rhestr yn yr Atodiad)"

**Barn Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

**Prif Swyddog Cyllid.**

"Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."